

# CELF A DYLUNIO, Y CYFRYNGAU, FFOTOGRAFFIAETH

O'r palet paent i du ôl i'r lens, mae'r maes hwn yn un o'r rhai mwyaf cystadleuol ac yn fyrlymus a chyffrous! Delfrydol ar gyfer y rheiny sy'n greadigol ac artistig.

Cymerwch olwg ar y gwahanol lwybrau gyrfaedd y gallech chi eu dilyn:

## Dylunio graffeg

Daw dylunwyr graffeg â syniadau'n fyw gyda gwybodaeth dechnegol a dychymyg. Fel rheol yn dilyn briff, byddwch yn cyfathrebu cysyniadau'n weledol ac yn ysbrydoli cynulleidfa gan ddefnyddio meddalwedd cyfrifiadurol neu gyda llaw, yn creu hysbysebion, cylchgronnau, pamffledi etc.

## Cyfringau rhyngweithiol

Rydym yn rhyngweithio gyda chyfringau bob dydd drwy apiau ar ein ffonau clyfar, technoleg sgrin gyffwrdd etc. Creu cynnyrch digidol sy'n dibynnu ar rhyngweithiad â chwsmeriaid yn ffurfiau negeseuon fflach, negeseuon testun, fideo a sain. Mae'r maes hwn yn berffaith i chi os oes gennych ddealltwriaeth o'r technolegau diweddaraf.

## Ffasiwn

A ydych chi'n drendi? A oes gennych lygaid da am liw? A ydych chi'n gwybod beth sy'n

edrych yn dda? Trowch eich dyluniadau yn ddiplad drwy weithio gyda thorwyr patrymau, adwerthwyr a phrynwyr. Gallech chi weld eich dyluniadau ar y rhedfa, mewn bwtîcs neu ar y stryd fawr.

## Animeiddio


Nid cartŵnau yw popeth; cewch gynnwys wedi'i animeiddio ar y teledu, gwefannau a gemau cyfrifiadurol. Caiff darluniau llonydd eu trin i ymddangos fel lluniau sy'n symud drwy dechnegau 2D â llaw, graffeg 3D neu stop-symudiad, gan ddod â chreadigaethau'n fyw.

## Cyhoeddi

Wrth eich bodd â'r gair ysgrifenedig? Mae cyhoeddi yn gwneud llenyddiaeth, cerddoriaeth a gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd yn rhwydd. Dewch yn newyddiadurwr, awdur neu olygydd, yn cynhyrchu'r deunydd yr ydym ni wrth ein bodd yn ei ddarllen.

## Dolenni Defnyddiol

[www.ccskills.org.uk](http://www.ccskills.org.uk) Creative and Cultural Skills, elusen annibynnol  
[www.careerswales.com](http://www.careerswales.com)  
Gwefan Gyrfa Cymru



**£30,726**  
**£15.97/AWR**  
CYFLOG  
NODWEDDIADOL AR  
GYFARTALED D YN Y  
DIWYDIANT HWN

**CYFANSWM  
Y SWYDDI YN  
Y DIWYDIANT  
HWN**

**3,162 CYMRU**  
**148,379 DU**



**ERBYN 2024, BYDD 25%  
MWY O DDYLUNWYR  
GRAFFEG YN Y GWEITHLE**

**Beth allaf i ei astudio, ac ymhle?**

	Hyd	BG	C	DC	T
Celf a'r Cyfringau Creadigol (Astudiaethau Galwedigaethol) - Lefel 1	1 Flwyddyn		✓	✓	✓
Celf a Dylunio - Lefel 2	1 Flwyddyn			✓	✓
Celf a Dylunio - Lefel 3	2 Flynedd		✓	✓	
Celf a Dylunio (Diploma Estynedig) - Lefel 3	2 Flynedd	✓			✓
Astudiaethau Sylfaen (Celf a Dylunio) - Lefel 3/4	1 Flwyddyn			✓	
Sgiliau ar gyfer Gweithio yn y Diwydiannau Creadigol a Dylunio - Lefel 2	1 Flwyddyn	✓			
Dylunio a Thechnoleg Ddigidol Greadigol (Diploma Estynedig) - Lefel 3	1 Flwyddyn			✓	
Cynhyrchu a Thechnoleg Cyfringau Creadigol (Dylunio Gemau) - Lefel 3	1 Flwyddyn	✓	✓		
Cyfringau - Lefel 2	1 Flwyddyn		✓	✓	
Cyfringau Digidol (Diploma Estynedig) - Lefel 3	1 Flwyddyn		✓		

Ymgeisiwch ar-lein nawr ar [www.coleggwent.ac.uk](http://www.coleggwent.ac.uk) | [admissions@coleggwent.ac.uk](mailto:admissions@coleggwent.ac.uk) | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)



Campus key: BG - Parth Dysgu Blaenau Gwent / C - Campws Crosskeys / DC - Campws Dinas Casnewydd / T - Parth Dysgu Torfaen

